

UCU

University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

RYDYM WEDI CAEL DIGON

PEDAIR BRWYDR UN UNDEB

- 1 mynd i'r afael â scandal bylchau rhwng cyflogau mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd ac anabled
- 2 rhoi terfyn ar gontractau dros dro a'r ansicrwydd o ran swyddi
- 3 mynd i'r afael â llwythi gwaith cynyddol sy'n rhoi straen mawr ar ein haelodau
- 4 sicrhau cynnydd o £2,500 i'r holl bwyntiau ar y raddfa gyflog genedlaethol.

CEFNOGWCH Y STREICIAU

<https://www.ucu.org.uk/hedisputes>

Pam rydym yn streicio?

Staff prifysgol ac aelodau'r Undeb Prifysgolion a Cholegau ydym ni, ac rydym yn streicio ynghylch y canlynol: bylchau rhwng cyflogau mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd ac anabled; swyddi dros dro ac arferion cyflogaeth ansicr; llwythi gwaith annioegel; a gostyngiad mewn cyflog. Mae cyflogwyr prifysgolion yn gyson yn methu â mynd i'r afael â'r materion hyn.

Llawn siarad, dim gweithredu

Ers 2009, mae cyflogau staff mewn prifysgolion i bob pwrpas wedi cael eu torri bron 20% mewn termau real, wrth i staff gael eu gofyn i weithio'n galetach ac yn hirach nag erioed o'r blaen.

Mae dadansoddiad y cyflogwyr eu hunain yn pwysleisio bod menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a staff anabl yn gweld gwahaniaethau sylweddol mewn cyflogau. Mae contractau dros dro wedi ymwreiddio o hyd a chafodd 3,000 o staff prifysgolion eu diswyddo yn ystod y pandemig. Ac eto, mae cyflogwyr prifysgolion yn gwrthod ymrwymo i gymryd camau ystyrlon ar unrhyw un o'r amodau gwarthus hyn.

Streicio yw'r dewis olaf bob tro

Yn y gwaith y mae aelodau UCU am fod, nid ar streic, ond mae dyfodol addysg yn y fantol. Mae anghydraddoldeb cynyddol yn effeithio ar fyfyrwyr a staff – mae amodau gweithio gwael yn golygu amodau dysgu gwael.

Mae aelodau UCU yn parhau i ofyn i'n cyflogwyr ac arweinwyr ein prifysgolion weithio gyda ni, rhoi terfyn ar y streiciau ac osgoi aflonyddu ar raddfa eang i fyfyrwyr, sta , eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Gellir datrys yr anghydfod

Nid yw'n rhy hwyr i gyflogwyr wella eu cynnig, er mwyn ceisio datrys yr anghydfod hwn. Er mwyn dysgu mwy am yr hyn y mae aelodau UCU yn brwydro yn ei erbyn a'r hyn rydym yn ei fynnu, ewch i <https://www.ucu.org.uk/hedisputes>

Cefnogwch ein galwad i weithredu

Gofynnwn i chi sefyll gyda ni ac amddiffyn addysg uwch. Gallwch wneud y canlynol:

- dosbarthu ein deunyddiau sydd ar gael yma: <https://www.ucu.org.uk/hedisputes>
- mynd i linellau piced i ddangos eich cefnogaeth
- trydar eich cefnogaeth gan ddefnyddio'r hashnod: **#UnOonomPobUnOonom (#OneOfUsAllOfUs)**
- anfon e-bost at is-ganghellor y brifysgol i ofyn am drafodaethau o'r newydd
- llofnodi deiseb UCM (NUS): <https://email-nus.org.uk/p/5BGA-9DB/strike-letter>
- cefnogi staff sydd ar streic a rhoi i gronfa ymgyrchu UCU yn: <https://www.ucu.org.uk/fightingfund>